# Adroddiad Arolygu

**Haulwen George**

**Aberteifi**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/09/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 6 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 26 Mehefin 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn gallu ymlacio. Maent yn hyderus ac mae ganddynt lais cryf. Mae'r plant yn rhyngweithio â'i gilydd ac yn rhyngweithio â'r gwarchodwr plant mewn ffordd gadarnhaol. Maent yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae. Mae'r plant yn datblygu sgiliau annibyniaeth da.

Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'n rhyngweithio mewn ffordd garedig a chadarnhaol â'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn diwallu anghenion y plant yn unigol, ac mae'n ymwybodol iawn o'u hoff bethau a'u cas bethau.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae ganddi gartref sy'n gartrefol, hygyrch, a chysurus. Mae gofod da i'r plant chwarae dan do ac yn yr awyr agored gydag amrywiaeth o adnoddau o ansawdd da.

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'i chyfrifoldebau rheoliadol gyda pholisïau a gweithdrefnau addas i ddiwallu anghenion y plant.  Ymgorfforir hunanwerthuso a hyfforddiant. Mae'r partneriaethau â'r rhieni yn gadarn.

## Llesiant **Da**

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn gyfforddus yng nghartref y gwarchodwr plant. Maent yn cyrraedd y lleoliad yn fodlon ac yn setlo ar unwaith. Er enghraifft, maent yn rhedeg drwy'r drws ac yn defnyddio'r cyfleusterau a'r teganau sydd ar gael iddynt. Mae gan y plant gydberthynas agos a chadarnhaol â'r gwarchodwr plant. Maent yn mynd at y gwarchodwr plant am stori ac yn gwenu pan fydd yn gweithredu ar eu ceisiadau. Mae'r plant yn mynegi eu balchder pan fyddant yn llwyddo i gyflawni eu nodau wrth baru'r teganau a'r adnoddau lliw i'r cerdyn lliw ar y llawr.

Mae gan y plant lais cryf. Maent yn teimlo'n hyderus wrth chwarae, gan wybod bod eu dewisiadau a'u dymuniadau yn cael eu parchu gan y gwarchodwr plant. Mae'r plant yn mynegi eu hanghenion i'r gwarchodwr plant yn hyderus. Gwnaethant ddweud wrth y gwarchodwr plant “*eto*” pan roeddent eisiau rhagor o fyrbrydau, ac mae eraill yn gofyn am frechdan yn lle'r cinio a darperir. Caiff penderfyniadau a dewisiadau'r plant eu hystyried. Maent yn helpu eu hunain i deganau chwarae byd bach ac adnoddau o'u dewis.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda. Maent yn adnabod ei gilydd yn dda ac maent yn chwarae'n gyfforddus â'i gilydd. Er enghraifft, maent yn gweithio gyda'i gilydd i drefnu'r peli gwahanol liw yn llwyddiannus. Mae'r plant yn dangos empathi tuag at ei gilydd wrth iddynt afael dwylo wrth gerdded yn ôl o'r ysgol ac yn patio ei gilydd ar eu cefnau gan ddangos cefnogaeth a charedigrwydd i eraill. Mae'r plant yn rhyngweithio â'r gwarchodwr plant mewn ffordd gadarnhaol. Maent yn gwrando wrth gerdded ochr yn ochr â'r gwarchodwr plant ac yn gwrando ar gyfarwyddiadau i beidio â dringo ar y byrddau. Mae'r plant yn defnyddio moesau da wrth iddynt ddweud ‘diolch’ wrth y gwarchodwr plant am eu helpu yn ystod amser cinio.

Mae'r plant yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae a dysgu. Maent yn dangos sgiliau canolbwyntio da wrth wrando ar stori am gi o'r enw ‘Smot.’ Mae'r plant yn gyffrous am eu heriau. Maent yn sgrechian yn llawn cyffro wrth ddod o hyd i deganau gwahanol liw ac maent yn gyffrous wrth redeg ar ôl ei gilydd yn llawn brwdfrydedd.

Mae'r plant yn datblygu sgiliau annibyniaeth da. Maent yn adnabod lliwiau a chymeriadau o oedran ifanc iawn. Mae'r plant yn dangos y gallu i ddiwallu eu hanghenion personol yn dda. Er enghraifft, maent yn defnyddio'r toiled ac yn newid eu dillad heb anogaeth addfwyn y gwarchodwr plant. Mae'r plant yn defnyddio sgiliau echddygol manwl yn ystod gweithgareddau ac yn datblygu sgiliau mathemategol ac iaith cynnar drwy chwarae.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'n goruchwylio'r plant yn agos wrth iddynt chwarae. Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli'r rhan fwyaf o'r ymarferion hylendid yn dda. Mae'n golchi ei dwylo cyn helpu'r plant yn ystod amser cinio ac yn sicrhau bod y plant wedi golchi eu dwylo cyn bwyta. Mae arferion newid cewynnau ar waith yn bennaf drwy olchi dwylo a diheintio a glanhau'r mat newid ar ôl pob newid, ac mae preifatrwydd ac urddas yn cael eu parchu. Fodd bynnag, ni chaiff cyfarpar diogelu personol eu gwisgo wrth newid cewynnau. Mae gan y gwarchodwr plant wybodaeth dda am anoddefiadau ac anghenion deietegol a meddygol y plant. Mae'n deall ei chyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu'r plant ac ymatebodd yn dda i senarios posibl sy'n ymwneud ag amddiffyn a diogelu plant, gan wybod pa gamau i'w dilyn os bydd pryder yn ymwneud â lles plentyn.

Mae'r rhyngweithio rhwng y gwarchodwr plant a'r plant yn gadarnhaol ac yn ofalgar. Mae'n adnabod y plant yn dda iawn ac yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'u hoff bethau, eu cas bethau a'u dewisiadau. Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ymddygiad y plant yn briodol. Wrth fynd yn ôl ac ymlaen o'r ysgol, mae'n sicrhau bod pob plentyn yn gwrando ar ei chyfarwyddiadau ac yn ddiogel drwy'r amser. Pan fydd y plant eisiau'r un teganau neu fwydydd, gall y gwarchodwr plant reoli'r sefyllfaoedd hyn gan dynnu eu sylw gydag opsiynau gwahanol. Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi anogaeth gadarnhaol drwy ganmol y plant. Er enghraifft, mae'n canmol y plant pan fyddant yn cyfrif yn Gymraeg, a phan fyddant yn bwyta'n dda ac yn gwisgo eu hunain.

Mae'r gwarchodwr plant yn diwallu anghenion a dewisiadau'r plant yn dda. Mae ganddi ddealltwriaeth drylwyr o anghenion pob plentyn a phob maes datblygu. Mae'n cydnabod eu camau datblygiadol nesaf ac yn eu cyrraedd drwy chwarae. Mae'r gwarchodwr plant yn croesawu syniadau'r plant i wella eu dealltwriaeth o eirfa fel enwau anifeiliaid, lliwiau, a siapiau drwy ddarllen llyfrau a chreu gemau gyda'r teganau o'u dewis. Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo'r Gymraeg yn llwyddiannus.

## Yr Amgylchedd Da

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Caiff y drysau eu cloi, ac mae'r ffens a'r gât yn yr ardal agored yn amgaeedig ac yn ddiogel. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw cofnodion o ymwelwyr â'r lleoliad. Mae'n cynnal ymarferion tân rheolaidd a chaiff gwiriadau cynnal a chadw eu diweddaru. Caiff yr asesiadau risg eu diweddaru'n rheolaidd ar gyfer yr ardal dan do, gweithgareddau, ardal awyr agored, teithiau allan, teithiau yn y car, a mynd yn ôl ac ymlaen o'r ysgol.

Mae'r eiddo'n yn groesawgar gydag ystafell chwarae ar wahân ac ardal awyr agored i'r plant. Mae'r ystafell chwarae yn ardal gyfforddus a lliwgar gyda lle i ymlacio a chysgu. Mae'r gwarchodwr plant wedi trefnu'r ardal doiled ac ardaloedd chwarae er mwyn sicrhau bod y plant yn gallu bod yn annibynnol bob amser. Mae ardaloedd lle gall y plant gymdeithasu a bwyta wrth fwrdd y gegin o oedran ifanc. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr ystafell chwarae yn dathlu gwaith crefft y plant, ac mae lluniau ohonynt yn cael eu harddangos, sy'n rhoi ymdeimlad cryf o berthyn i'r plant.

Mae gan y gwarchodwr plant amrywiaeth dda o adnoddau o ansawdd, gyda'r rhan fwyaf ohonynt ar lefel isel er mwyn i'r plant eu defnyddio. Mae'r rhain yn cynnwys posau, gemau, jig-sos, teganau meddal, llyfrau, chwarae rôl, teganau adeiladu, crefftau, a theganau cerddorol. Mae'r ardal awyr agored yn drefnus, gyda ffrâm ddringo a llithren, cegin fwd, tryciau a cheir; gyda rhannau bach ac adnoddau naturiol ychwanegol fel moch coed, cregyn, a rhannau pren i wella eu profiadau. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu nifer bach o adnoddau i hyrwyddo diwylliannau ac amrywiaeth, ac mae'n sicrhau bod y plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau fel Diwali a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd pan fyddant ddod at ei gilydd mewn grwpiau chwarae lleol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth **Da**

Mae'r gwarchodwr plant yn drefnus ac mae ganddi ddealltwriaeth dda o'i chyfrifoldebau rheoliadol. Mae'n rhannu datganiad o ddiben sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau ac yn adlewyrchu'r ffordd y caiff ei lleoliad ei redeg ar hyn o bryd. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r cofnodion gofynnol. Er enghraifft, mae'n cadw cofnod o bresenoldeb y plant ac mae ganddi'r contractau a chaniatadau gofynnol ar gyfer pob plentyn sy'n mynychu. Mae gan y gwarchodwr plant bolisïau a gweithdrefnau sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd ac mae wedi rhannu polisi diogelu wedi'i ddiweddaru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru yn ystod yr arolygiad. Mae'r yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac yswiriant y car yn gyfredol, ac mae pob gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ddilys.

Mae'r gwarchodwr plant yn derbyn adborth gan y rhieni a'r plant yn rheolaidd am y ffordd y mae'n rhedeg ei lleoliad. Mae'n cyflwyno adroddiad ar ansawdd y gofal sy'n pwysleisio'r gwelliannau a wnaed ac yn gosod targedau ar gyfer y dyfodol. Mae'r gwarchodwr plant wedi rhoi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru am newidiadau i'r lleoliad ac wedi cwblhau'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth blynyddol.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymarferydd gofal plant cymwysedig a phrofiadol, sy'n mynychu cyrsiau newydd ar gyfer ei datblygiad proffesiynol ei hun yn rheolaidd. Maent yn cynnwys cyrsiau rheoli ymddygiad, sesiynau ymwybyddiaeth o awtistiaeth, atal, cymorth cyntaf pediatrig, a hyfforddiant diogelu. Fodd bynnag, mae dyddiad ei hyfforddiant hylendid bwyd wedi mynd heibio.

Mae'r partneriaethau â'r rhieni yn dda. Dywedodd y rhieni wrthym fod y gwarchodwr plant yn rhyngweithio'n dda â'r plant, a bod y plant yn hapus yn ei chwmni ac yn ei chartref. Maent yn teimlo ei bod yn broffesiynol ac yn cynnig gofal o safon uchel i'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn croesawu cyfleoedd o fewn y gymuned leol. Mae'n mynd â'r plant i grwpiau chwarae lleol ac yn sicrhau eu bod yn cael digon o gyfleoedd i ymweld ag ardaloedd lleol o ddiddordeb, fel y llyfrgell, siopau, traethau, pyllau dŵr, parc bywyd gwyllt a'r fferm gymunedol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 10 - Gofal Iechyd | Sicrhau y caiff hyfforddiant hylendid bwyd eu diweddaru'n rheolaidd |
| Safon 10 - Gofal Iechyd | Sicrhau y caiff cyfarpar diogelu personol ei gynnwys yn y gweithdrefnau newid cewynnau. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 04/11/2024